

Ailddyfodiad Iesu

Adfent 4

Mae yna rai pobl sy'n gwneud cynlluniau fisoedd lawer ymlaen llaw. Synnwn i ddim nad oes ambell un wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio ar gyfer Nadolig 2019. Ond i'r mwyafrif ohonom, mae meddwl am y Nadolig a ddaw drennydd yn fwy na digon. Fedrwn ni ddim edrych ymhellach na hynny, gan obeithio y bydd yr holl baratoadau a wnaethom (neu y bwriadwn eu gwneud dros y deuddydd nesaf!) yn talu ar eu canfed.

Daethom at Sul olaf Tymor yr Adfent, a thros y tri Sul diwethaf gwelsom mai ar ddyfodiad Iesu Grist y mae pwyslais yr Eglwys Gristnogol yn y Tymor hwn sy'n arwain at y Nadolig. Cofiw'n fod Mab Duw wedi dod i'r byd yn blentyn bach; edrychwn ymlaen yn llawen at ddathlu ei ddyfodiad.

Ie, tymor o edrych ymlaen yw'r Adfent. Mae'r holl ddisgwyl sydd am y partion a'r cyngherddau a'r carolau a'r mins pei a'r twrci ac ati yn ein hatgoffa o hynny. A thrwy'r cyfan, edrychwn ymlaen at yr holl ddathliadau sy'n ein galluogi i gyhoeddi o'r newydd fod ein Gwaredwr wedi dod i'r byd trwy eni Iesu.

Ond mae yna hefyd rywbeth annisgwyl iawn ynglŷn â'r Adfent gan fod yr Eglwys Gristnogol yn y tymor hwn yn edrych heibio i eni Iesu at yr hyn a'i dilynodd. Nid ar ddyfodiad Iesu ym Methlehem yn unig y mae'r sylw, ond ar yr hyn a elwir ei 'Ailddyfodiad'.

Yn hynny o beth, yr ydym nid yn unig yn edrych nôl ond hefyd yn edrych ymlaen: edrych nôl ar yr hyn a ddigwyddodd ym Methlehem ac edrych ymlaen at yr hyn sydd i ddigwydd pan ddaw Iesu eto.

'Pan ddaw Iesu eto': mor anghyfarwydd y geiriau hyn i gynifer o Gristnogion. Mor ddieithr y neges am Ailddyfodiad ein Harglwydd. Mor dawel fu'r Eglwys ynglŷn â'r gwirionedd y soniodd Iesu ei hun amdano: 'A'r pryd hwnnw gwelant Fab y Dyn yn dyfod yn y cymylau gyda nerth mawr a gogoniant. Ac yna'r anfona ef ei angylion a chynnull ei etholedigion o'r pedwar gwynt, o eithaf y ddaear hyd eithaf y nef' (Marc 13:26-27). Ac mor amharod fuom i gyhoeddi gyda'r Apostol Paul: 'Pan floeddir y gorchymyn, pan fydd yr archangel yn galw ac utgorn Duw yn seinio, bydd yr Arglwydd ei hun yn disgyn o'r nef; bydd y meirw yng Nghrist yn cyfodi yn gyntaf, ac yna byddwn ni, y rhai byw a fydd wedi eu gadael, yn cael ein cipio i fyny gyda hwy yn y cymylau, i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr; ac felly byddwn gyda'r Arglwydd yn barhaus' (1 Thesalonïaid 4:16-17).

Ar un wedd, nid syndod fod yr Eglwys mor dawel ynghylch yr Ailddyfodiad. Mae'r cyfan mor ddieithr: diwedd y byd; dydd barn; dychwelyd ar gymylau'r nef; atgyfodiad y meirw. A'r cyfan wrth gwrs y tu hwnt i'n profiad gan nad yw wedi digwydd eto. Ond nid yw hynny'n rheswm dros beidio â derbyn yr hyn y mae'r Beibl yn ei ddysgu. Trwy ffydd y credwn y pethau hyn yn union fel mai trwy ffydd y credwn fod Iesu Grist wedi ei eni ac wedi byw a marw ac atgyfodi.

Tybed mai un o gymwynasau'r Adfent yw ei fod yn cyfeirio at yr Ailddyfodiad? Wrth ddathlu'r Nadolig a diolch am ddyfodiad Mab Duw i'r byd, edrychwn ninnau heibio i hynny er sicrhau ein bod, trwy ffydd yn Iesu Grist, yn barod at ddydd mawr ei ddychweliad.

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 780
23 Rhagfyr, 2018
Gronyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch

Rhifyn nesaf *Gronyn*

Ddydd Sul, Ionawr 6, 2019



Cofio Mair, cofio miri – y doethion

Ar daith i'w addoli;

Cofio'i ddyfod mewn tlodi –

Cofio 'Nuw'n ein cofio ni.

Cyngerdd Nadolig
yng nghwmni
CÔR CAPEL COCH
a chyfeillion

Eglwys Sant Padarn, Llanberis
Nôy Sul, Rhagfyr 23ain 2018
7y.h.

Tocynnau £5
(ar gael o Siop Crib Coch, Llanberis
neu gellir talu wrth y drws)

Elw'r trug at Cynllun Efe

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn Llanberis am 10.30 o'r gloch. Bydd parti Nadolig y plant yn dilyn yr oedfa. Ac yna, am 7.00 o'r gloch, bydd cyflwyniad Nadolig Côr Capel Coch a Chyfeillion yn Eglwys Sant Padarn. Bydd modd talu wrth y drws heno. Y pris mynediad yw £5, gyda'r elw at waith Cynllun Efe.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig dan ofal yr ieuencid yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

Cofion

Ar bedwerydd Sul yr Adfent, yt Sul olaf cyn y Nadolig, anfonwn gofion cynnes at holl aelodau eglwysi'r Ofalaeth. Beth bynnag eich amgylchiadau, boed i chi

Balm o Salm



'Molwch yr ARGLWYDD. Diolchaf i'r ARGLWYDD â'm holl galon yng nghwmni'r uniawn, yn y gynulleidfa. Mawr yw gweithredoedd yr ARGLWYDD, fe'u harchwiler gan bawb sy'n ymfrydu ynddynt. Llawn anrhydedd a mawredd yw ei waith, a saif ei gyfiawnder am byth ... Rhoes waredigaeth i'w bobl, a gorchymyn ei gyfamod dros byth. Sanctaidd ac ofnadwy yw ei enw. Dechrau doethineb yw ofn yr ARGLWYDD; y mae deall da gan bawb sy'n ufudd. Y mae ei foliant yn para byth' (Salm 111:1-3, 9-10).

brofi gras a nerth i ymddiried yn naioni a chariad Duw sy'n ddigonol ym mhob dim a wynebwn. Ym mhle bynnag y byddwch yn treulio'r Nadolig, boed i chi wybod fod yr Un a ddaeth yn gnawd yn parhau'n Waredwr ac yn Arglwydd byw.

'Dad Nefol; dros y Nadolig eleni eto, boed i ni wybod i sicrwydd dy fod Ti gyda ni, yn ein diogelu a'n hamddiffyn. Nertha ni i ymddiried yn unig yn dy ras a'th drugaredd; a gwared ni rhag meddwl am un eiliad y medrwn ni wneud hebot Ti.'

Cyfraniadau 2018 Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am 2018 yn cau ddydd Sul, Rhagfyr 30. Bydd unrhyw gyfraniad a dderbynnir wedi'r diwrnod hwnnw yn cael ei roi yng nghyfrifon 2019. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

Yr un modd, bydd trysoryddion eglwysi eraill yr Ofalaeth yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad ar gyfer 2018 cyn diwedd y flwyddyn.

Cyngerdd Nadolig

Bydd Cyngerdd Nadolig Côr Capel Coch a Chyfeillion yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7.00 o'r gloch HENO, nos Sul, Rhagfyr 23. Dowch i gefnogi'r Côr sydd wedi bod yn brysur yn ymarfer ers wythnosau. Y pris mynediad fydd £5, a gellir talu wrth y drws heno. Bydd holl elw'r noson yn cael ei roi i Gynllun Efe.

Ysgol Sul

Bydd yr Ysgolion Sul yng Ngharmel, Bethlehem a Chapel Coch yn cael seibiant dros wyliau'r Nadolig. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon am eu gwaith caled dros y tymor diwethaf, yn cynnwys paratoi ar gyfer yr oedfaon Diolchgarwch a Nadolig.

Bydd Ysgol Sul Carmel yn ail ddechrau y Sul cyntaf wedi i'r plant fynd nôl i'r ysgol ym mis Ionawr. Cawn gyhoeddi eto ddyddiad ail ddechrau Ysgol Sul Bethlehem.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER
Dydd Sul, Rhagfyr 30: Dim oedfa.
Dydd Sul, Ionawr 7: Y Gweinidog am 3.30 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Sul, Rhagfyr 30: John Roberts am 10.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 7: Y Parchg Huw Pritchard am 10.00 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Sul, Rhagfyr 30: Oedfa am 5.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 7: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Rhagfyr 30: Y Parchg Iwan Llywelyn Jones am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 7: Oedfa am 2.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Rhagfyr 30

Dim Oedfa

Ionawr 7, 2019

Y mis nesaf - Llanberis

Dydd Nadolig

10.00 a.m. - Oedfa Gymun y Nadolig

Rhagfyr 30

10.00 a.m. - Mr John Roberts

Ionawr 7, 2019

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Dydd Nadolig

Carmel, Llanllechid

Gwasanaeth Darlleniadau a Charolau am 10.00 o'r gloch

Capel Coch

Gwasanaeth Cymun Gwasanaeth Darlleniadau a Charolau am 10.00 o'r gloch